# Y Pwyllgor Archwilio

## Cofnodion AC(2) 01-07

### Dyddiad y cyfarfod: 8 Chwefror 2007
### Amser y cyfarfod: 9.30am – 11.15am
### Lleoliad y cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 3, Y Senedd

#### Aelodau'r Cynulliad yn Bresennol

| **Aelod Cynulliad** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Janet Davies (Cadeirydd) | Gorllewin De Cymru |
| Leighton Andrews | Rhondda |
| Mick Bates | Sir Drefaldwyn |
| Jocelyn Davies | Dwyrain De Cymru |
| Mark Isherwood | Gogledd Cymru |

#### Swyddogion yn Bresennol

| | |
|---|---|
| Jeremy Colman | Archwilydd Cyffredinol Cymru |
| Margaret Griffiths | Swyddfa Archwilio Cymru |
| Rob Powell | Swyddfa Archwilio Cymru |
| Ian Gibson | Dirprwy Swyddog Cydymffurfiaeth y Cynulliad |

#### Tystion

| | |
|---|---|
| Dr Emyr Roberts | Cyfarwyddwr yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, Llywodraeth Cynulliad Cymru |
| Linda Whittacker | Cyfarwyddwr Tai, Llywodraeth Cynulliad Cymru |

#### Gwasanaeth y Pwyllgor

| **Enw** | **Teitl Swydd** |
|---|---|
| Kathryn Jenkins | Clerc y Pwyllgor |
| Daniel Collier | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau**

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Alun Cairns, Denise Idris Jones, Irene James, Carl Sargaent a Catherine Thomas. Ni chafwyd unrhyw ddirprwyon na datganiadau buddiant.

**Eitem 2: Mynd i'r Afael â Digartrefedd yng Nghymru: Adolygu Effeithiolrwydd y Strategaeth Genedlaethol ar Ddigartrefedd**
**Papur: AC(2) 01-07(p1)**

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Dr Emyr Roberts, Cyfarwyddwr yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, Llywodraeth Cynulliad Cymru a Linda Whittacker, Cyfarwyddwr Tai, Llywodraeth Cynulliad Cymru.

**Pwyntiau gweithredu**

Cytunodd Dr Emyr Roberts i ddarparu'r canlynol ar gyfer y Pwyllgor:

- Nifer yr awdurdodau lleol sydd wedi cwblhau Asesiadau o'r Angen Lleol am Dai.
- Nodyn ynghylch y gyfran o dir sy'n eiddo i awdurdodau lleol sydd wedi ei waredu ar gyfer datblygu tai fforddiadwy.

**Eitem 3: Rhaglen derfynol archwiliadau gwerth am arian**
**Papur: AC(2) 01-07(p2)**

3.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod rhaglen gwerth am arian ar gyfer archwiliadau Archwilydd Cyffredinol Cymru sydd i ddechrau yn 2007-08.

**Eitem 4: Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i adroddiadau'r Pwyllgor Archwilio ar Ddysgu Seiliedig ar Waith**
**Papur: AC(2) 01-07(p3), AC(2) 01-07(p4)**

4.1 Bu'r Pwyllgor yn ystyried ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar Ddysgu Seiliedig ar Waith a chyngor yr Archwilydd Cyffredinol. Roedd y Pwyllgor yn fodlon.

**Papur i'w nodi:**

**Eitem 5: Y Fenter Twyll Genedlaethol yng Nghymru 2004/05: Adroddiad Cryno**
**Papur: AC(2) 01-07(p5)**

5.1 Nododd y Pwyllgor adroddiad cryno Archwilydd Cyffredinol Cymru ar y Fenter Twyll Genedlaethol yng Nghymru 2004/05. Cytunodd y Pwyllgor y byddai'n clywed tystiolaeth am y Fenter Twyll Genedlaethol yn y dyfodol.

**Eitem 6: Cofnodion y cyfarfod blaenorol**
**Papur: AC(2) 11-06(mins)**

6.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Rhagfyr 2006.

**Sesiwn Breifat**

Penderfynodd y Pwyllgor wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod yn unol â Rheol Sefydlog 8.24(vi).

**Eitem 7:Gwerthuso'r sesiwn dystiolaeth**

7.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod y dystiolaeth a gafwyd ar adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru Mynd i'r Afael â Digartrefedd yng Nghymru: Adolygu Effeithlonrwydd y Strategaeth Genedlaethol ar Ddigartrefedd.

**Eitem 8: Adroddiadau Drafft y Pwyllgor Y Gwasanaethau Ambiwlans yng Nghymru: Mynediad i'r cyhoedd i gefn gwlad; a Gwneud gwell defnydd o lawfeddygaeth ddydd yng Nghymru**
**Papur: AC(2) 01-07(p6); AC(2) 01-07(p7); AC(2) 01-07(p8)**

8.1 Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr adroddiadau drafft.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**
**Chwefror 2007**